# Cyflwyniad i weithio gyda'r Diwydiant Teithio

Ydych chi'n weithredwr twristiaeth yng Nghymru sy'n chwilio am ffyrdd o hybu busnes trwy gydol y flwyddyn? Ydych chi'n awyddus i estyn allan at gwsmeriaid newydd, ond heb syniad ble i ddechrau efallai? Gall Croeso Cymru helpu. Rydym ni am eich annog chi i feddwl am weithio gyda'r diwydiant teithio a'r manteision posibl.

**Pwy all gael budd o weithio gyda'r diwydiant teithio**

Cyflenwyr llety / lleoliadau â sêr graddio

- Llety â gwasanaeth (10+ ystafell) canolig neu fawr sydd o safon ac ar gael am bris teg ar gyfer rhaglenni'r diwydiant teithio hamdden a digwyddiadau busnes.
- Lleoliadau y gellir eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau, digwyddiadau megis ciniawau gala a phrofiadau Cymreig unigryw.
- Efallai y bydd gwestai llai / busnesau gwely a brecwast yn gallu gweithio gyda rhai o'r gweithredwyr sy'n cynnig rhaglenni talebau.
- Asiantaethau hunanarlwyo neu fàs critigol o adeiladau ar gyfer y diwydiant teithio hamdden. Mae hunanarlwyo hefyd yn ddiddorol ar gyfer busnes e.e. meithrin tîm, cyfarfodydd / cynadleddau llai.

Atyniadau achrededig

- Mae atyniadau, gweithgareddau, gweld golygfeydd a digwyddiadau i gyd o ddiddordeb i'r sector twristiaeth fusnes a'r diwydiant teithio hamdden.

Gweithredwyr a threfnwyr lleol teithiau gweithgareddau, teithiau cyffredinol, teithiau cludiant a theithiau arbenigol

- Gwasanaethau tywys a gwybodaeth/gweithgareddau diddordeb arbennig (yn enwedig ar gyfer gweithredwyr arbennig megis cerdded, golff, achyddiaeth a.y.b.)
- Gweithredwyr sy'n darparu gweithgareddau meithrin tîm a chymhellion i grwpiau busnes.

**Pwy, a beth, yw'r diwydiant teithio?**

Nid un endid yw'r **diwydiant teithio**. Mae'n cynnwys gwahanol fathau o weithredwyr ac asiantau trydydd parti sy'n gweithredu ystod o fodelau busnes. Peidiwch â gadael i hyn eich atal. Yr allwedd yw dod o hyd i'r gyfatebiaeth gywir i'ch busnes. O'i fynegi'n syml, y diwydiant teithio yw ble y mae eraill (prynwyr) yn gwerthu eich cynnyrch ymlaen, naill ai i brynwyr neu'n uniongyrchol i'r cyhoedd, grwpiau neu unigolion.

Dyma ein Deg Uchaf:

1. **Gweithredwyr teithiau sy'n dod i mewn**

Caiff y rhain eu cynrychioli'n aml gan y gymdeithas fasnach 'UKinbound'. Maent yn trefnu teithiau, gwibdeithiau a rhaglenni talebau sy'n cynnwys llety, atyniadau, cludiant a chynnyrch gweld golygfeydd yn y DU ar gyfer gweithredwyr rhyngwladol.

2. **Gweithredwyr a chyfanwerthwyr teithiau**

Mae'r rhain yn trefnu pecynnau llety, atyniadau, cludiant ar gyfer grwpiau a Theithwyr Cwbl Annibynnol.

3. **Asiantau ar y we**

Mae'r rhain yn tyfu'n ddramatig mewn nifer. Bydd y rhan fwyaf yn chwilio am westai, hunanarlwyo o bosibl. Mae rhai'n cynnig cynnyrch gweld golygfeydd ac atyniadau hefyd.

4. **Trefnwyr lleol**

Mae trefnwyr lleol yn darparu amrywiaeth o lety (gwestai fel arfer) a chynnyrch gweld golygfeydd, a hefyd atyniadau lle y bo'n bosibl, ar gyfer cyfanwerthwyr a gweithredwyr teithiau.

5. **Gweithredwyr coetsis**

Mae'r rhain ar y cyfan yn creu ac yn gwerthu teithiau dydd, egwylion byr a gwyliau hwy.

6. **Cwmnïau rheoli cyrchfan**

Mae'r cwmnïau hyn yn creu ac yn archebu digwyddiadau a rhaglenni busnes wedi'u haddasu'n benodol. Y farchnad yma yw grwpiau a chymdeithasau corfforaethol yn bennaf.

7. **Cwmnïau trefnu cymhellion**

Eu prif ddiddordeb yw trefnu rhaglenni cymhellion ar gyfer cysylltiadau corfforaethol. Ar y cyfan maent yn chwilio am rywbeth sydd ychydig yn wahanol, e.e. gweithgareddau, nosweithiau arbennig, teithiau y tu ôl i'r llenni a.y.b.

8. **Trefnwyr cynadleddau proffesiynol a'r Sector twristiaeth fusnes**

Maent yn cynnig datrysiadau ar gyfer digwyddiadau a chynadleddau corfforaethol. Mae prynwyr yn trefnu ac yn archebu digwyddiadau busnes ar gyfer grwpiau a chymdeithasau corfforaethol naill ai'n uniongyrchol eu hunain neu drwy ganolwr. Byddant yn chwilio am leoliadau i gynnal cyfarfodydd, cynadleddau, arddangosfeydd a chiniawau gala neu brofiadau 'Cymreig' unigryw ar gyfer meithrin tîm a chymhellion.

9. **Trefnwyr Teithiau i Grwpiau**

Yn bennaf, ysgrifenyddion cymdeithasol sy'n trefnu ymweliadau a theithiau ar gyfer ystod o grwpiau ond sy'n ddylanwadol iawn ar lefel leol.

10. **Asiantau gwyliau**

Dim ond cynnyrch gweithredwyr teithiau y mae rhai asiantau'n ei werthu tra bydd eraill yn gwneud rhywfaint o becynnu ac yn trefnu teithiau eu hunain.

**Iawn...dyna pwy yw pwy, ond pam gweithio gyda hwy?**

Ydych chi'n teimlo bod archebion yn dawelach ar adegau penodol o'r flwyddyn? Ydych chi'n teimlo bod hysbysebu'n rhy ddrud? A yw eich cyllideb farchnata'n cael ei hymestyn i'r eithaf neu'n absennol? A hoffech chi dalu comisiwn yn unig am fusnes newydd?

Os yw'r ateb i unrhyw un o'r uchod yn gadarnhaol, yna efallai mai gweithio gyda'r diwydiant teithio yw'r ateb.

Mae gennym saith rheswm da pam y dylech ystyried gweithio gyda'r diwydiant teithio:

1. **Dosbarthu ehangach**

Yn lle ceisio gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr beth am geisio gweithio gyda chanolwr masnachol. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd yn gofyn ichi am ffi ymlaen llaw. Yn hytrach bydd yn gofyn ichi ddarparu cyfraddau net/disgowntiau da y gallant ychwanegu eu comisiwn atynt.

2. **Cyrraedd marchnadoedd newydd**

Mae weithiau'n anodd cyrraedd marchnadoedd ac mae gweithio gyda'r diwydiant yn golygu hyrwyddo eich busnes mewn lleoedd yr ydych wedi'u cael yn anodd i'w cyrraedd oherwydd gallu o ran gweinyddu a marchnata neu ddiffyg ymwybyddiaeth o'r farchnad.

3. **Hwb i'ch arenillion**

Trwy fod â lefelau prisio sy'n galluogi'r diwydiant i gynnwys comisiwn neu gyfraddau â disgownt, gallwch greu gwerthiant ychwanegol i gynyddu ffigyrau ymwelwyr neu lenwi lleoedd gwag.

4. **Talu am ganlyniadau yn unig**

Yn y rhan fwyaf o achosion rydych yn talu comisiwn neu'n cynnig pris â disgownt dim ond pan fo'r cynnyrch yn cael ei werthu. Mae'n gyfle i gynyddu'r cyrhaeddiad wrth hyrwyddo eich cynnyrch heb lawer o gost ychwanegol.

5. **Ffurfio perthnasoedd hirhoedlog**

Mae'r diwydiant yn dod i'ch adnabod ac yn ymddiried ynddoch i ddarparu cynnyrch sy'n gyson ac o safon. Byddant yn parhau i hyrwyddo a gwerthu eich cynnyrch flwyddyn ar ôl blwyddyn, neu nes bod y galw yn y farchnad yn awgrymu fel arall.

6. **Llai o strach yn gyffredinol!**

Y diwydiant yw'r cyfrwng rhyngoch chi a'r defnyddiwr nes bod y gwestai'n cyrraedd wrth eich drws. Mae'r diwydiant yn ymdrin â'r ymholiadau amrywiol am wybodaeth gyffredinol, trafodion ariannol ac unrhyw broblemau y gallai'r cleient ddod ar eu traws. Yn aml bydd ganddynt y gallu i werthu'r holl elfennau eraill o wyliau'r teithiwr.

**Popeth yn iawn hyd yma?**

Mae gan y diwydiant teithio'i restr wirio ei hun a bydd yn gofyn am y gwarantau canlynol gennych:

• Cynnyrch sy'n gyson ac o safon gyda phris cystadleuol a chithau'n gweithredu o fewn safonau cydnabyddedig y diwydiant.

• Bod wedi'ch trwyddedu a'ch yswirio'n llawn a deall sut i weithio gyda gweithredwyr teithiau ac ymwelwyr rhyngwladol.

• Yn hapus i weithio gydag amseroedd dirwyn hir. Fel arfer mae'r diwydiant teithio'n chwilio am gynnyrch o leiaf 6 mis ymlaen llaw ac mae cymdeithasau'n archebu cynadleddau hyd at 5 mlynedd ymlaen llaw.

Er bod negodiadau a thrafodaethau gyda'r diwydiant teithio a sectorau twristiaeth fusnes yn amrywio mae rhai cwestiynau allweddol y dylech ddisgwyl iddynt gael eu gofyn ichi wrth ffurfio perthynas weithio:

- Beth sy'n gwneud eich cynnyrch yn unigryw?
- Allwch chi gadarnhau a gwarantu'r archeb ar unwaith neu o fewn 24 awr?
- Allwch chi ddarparu lleoedd (dyraniadau) bloc yn eich adeilad?
- Allwch chi ddarparu prisiau cyfrinachol, yn brisiau net a phrisiau y gellir ychwanegu comisiwn atynt?
- Allwch chi weithio o fewn eu polisïau archebu a chanslo?
- Ydych chi'n derbyn talebau?
- Ydych chi'n cynnig disgowntiau i grwpiau a llety am ddim i yrwyr coetsis
- Allwch chi ddarparu a gwarantu prisiau ac amserlenni flwyddyn cyn y tymor teithio?

**Allwch chi gyflawni'r addewid?**

Rydym yn gwybod eich bod yn eithriadol o brysur yn rhedeg eich busnes, ond mae gweithio gyda'r diwydiant teithio'n gallu creu rhagor o fusnes. Mae hyn yn ei dro'n dwyn ei alwadau ei hun felly cyn mynd yn bellach allwch chi ateb y gofynion sylfaenol canlynol?

• Ymateb cyflym a phroffesiynol – ymateb i ymholiadau, ceisiadau i gadw lle o fewn 24 awr *(neu'n gynharach)*

• Hyblygrwydd ac Ymrwymiad – Os oes ar y gweithredwr eisiau rhywbeth gwahanol allwch chi ddarparu hynny?

• Hygyrchedd – Ydych chi ar gael trwy gydol y flwyddyn ac, os nad ydynt, sut allant eich cyrraedd mewn modd amserol ac effeithlon?

• Gwefan – A oes gennych wefan dda ac e-bost sy'n gallu derbyn ffeiliau maith neu fawr fel atodiadau? A yw eich gwefan yn hawdd i'w defnyddio? A yw'n amddiffyn y gweithredwyr / cyfanwerthwyr trwy ddangos cyfraddau manwerthu uwch ar gyfer y cyhoedd na'r rhai a gynigir i'r diwydiant?

• Delweddau – allwch chi ddarparu delweddau digidol o safon sydd heb gyfyngiadau o ran hawlfraint a hynny yn y fformat sy'n angenrheidiol ar gyfer llyfrynnau neu wefan?

**Yr hyn y gallwn ni ei wneud i helpu**

Ein rôl ni yn Croeso Cymru yw dylanwadu ar brynwyr yn y diwydiant teithio a'r sectorau twristiaeth fusnes yn fyd-eang i'w hannog i ddod â busnes i Gymru. Mae gennym dîm ymroddedig sy'n gweithio'n galed i werthu Cymru ar eich rhan. Mae hyn

yn golygu sefydlu a chynnal perthnasoedd gydag unigolion a chwmnïau sydd naill ai wedi cynnwys Cymru yn eu rhaglenni neu sydd â'r potensial i wneud hynny.

**Sut ydym yn ei wneud?**

- Rydym yn cefnogi'r diwydiant teithio trwy roi mynediad at adnoddau y mae eu hangen arnynt i werthu Cymru i'w cwsmeriaid. Un o'r offer cymorth mwyaf yr ydym yn eu cynnig yw'r wefan busnes i fusnes (www.traveltrade.visitwales.com).
- System casglu data wedi'i symleiddio. Rydym yn casglu data gennych chi, y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, i'w ddangos ar wefan y diwydiant teithio. Gall gweithredwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn cael mynediad yn gyflym at wybodaeth gyfoes am y cynnyrch twristiaeth yng Nghymru sy'n barod i weithio gyda'r diwydiant teithio.
- Mynychu sioeau ac arddangosfeydd masnach ar gyfer cynnyrch a chyrchfannau, y mae llawer ohonynt yn darparu cyfleoedd gan bartneriaid
- Trefnu ymweliadau ymgyfarwyddo i'r diwydiant teithio gael profi'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig
- Cynhyrchu e-gylchlythyr sy'n targedu sectorau perthnasol
- Dilynwch ni ar twitter @VisitWalesTrade @MeetInWales
- Cydweithio'n agos gyda VisitBritain

**Byddwch yn rhagweithiol!**

Er mwyn cynyddu i'r eithaf eich cyfleoedd ar gyfer gweithio gyda'r diwydiant teithio a sectorau busnes i fusnes, dylech wneud y canlynol:

- Cofrestru eich cynnyrch ar wefan busnes i fusnes Croeso Cymru a hyrwyddir yn fyd-eang – www.traveltrade.visitwales.com/get-in-touch/register-your-product
- Anfon eich newyddion a datblygiadau atom yn gyson i gael eu cynnwys ar y dudalen newyddion ar ein gwefan, yn ein e-newyddion a'n diweddariadau ar gynnyrch. Sicrhewch eich bod yn anfon yr wybodaeth atom mewn da bryd i productnews@llyw.cymru. Byddwn yn rhannu diweddariadau perthnasol gyda gweithredwyr teithiau, cwmnïau cysylltiadau cyhoeddus a VisitBritain.
- Ein cynorthwyo pan fyddwn yn dod â gweithredwyr/asiantau teithiau ar deithiau ymgyfarwyddo i greu rhagor o raglenni/rhaglenni gwell.
- Ymunwch â ni mewn digwyddiadau allweddol ar gyfer y diwydiant teithio. I gael rhagor o wybodaeth, gweler
- https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/digwyddiadau-masnach-teithio Cofrestru ar gyfer ein e-newyddion i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Croeso Cymru yn ei wneud ac ar gyfer unrhyw gyfleoedd. https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/gweithio-gyda-croeso-cymru
- Cwrdd â gweithredwyr ac arddangos eich cynnyrch ar ein teithiau ymgyfarwyddo. Er mwyn cymryd rhan bydd angen ichi ddangos eich bod yn gweithio'n frwd gyda'r diwydiant teithio a bod eich cynnyrch wedi'i gynnwys ar ein gwefan ar gyfer y diwydiant teithio.
- Er mwyn cyrraedd marchnadoedd rhyngwladol, dod yn aelod o UKinbound a ETOA i gael mynediad at weithdai, seminarau a digwyddiadau rhwydweithio busnes i fusnes.
- Cofrestru ar gyfer e-gylchlythyr VisitBritain - www.visitbritain.org/sign-our-news
- Edrychwch ar www.trade.visitbritain.com i:-
  - Cofrestru eich cynnyrch ar gyfer y diwydiant yn rad-ac-am-ddim.

- Adnabod eich marchnad. Bwriwch olwg ar dudalennau dealltwriaeth VisitBritain ar gyfer gwybodaeth marchnad-benodol a fydd yn eich helpu i ddeall ymwelwyr rhyngwladol.
- Gwerthu eich cynnyrch y gellir ei archebu mewn dros 90 o wledydd trwy'r siop ar-lein.
- Ymuno ag un o ddigwyddiadau VisitBritain (yn y DU a thramor) ar gyfer apwyntiadau un-i-un wedi'u hamserlennu ymlaen llaw gyda phrynwyr rhyngwladol. 'Mae grantiau'r Adran Masnach Ryngwladol ar gael ar gyfer rhai digwyddiadau VisitBritain a gynhelir dramor ar yr amod bod cyllid ar gael a'ch bod yn gymwys.

Cofiwch ddilyn:

- @CroesoCymruBus
- @VisitWalesTrade
- @MeetInWales
- @croesocymru
- @visitbritainBiz
- @visitbritainPR
- @visitbritain
- Defnyddiwch #gwladgwlad a #lovegreatbritain

**Sut i gysylltu â Thîm y Diwydiant Teithio**

traveltrade@visitwales.com

www.traveltrade.visitwales.com/get-in-touch/register-your-product
(I gofrestru eich cynnyrch ar y wefan busnes i fusnes)

productnews@llyw.cymru (i anfon eich newyddion a datblygiadau atom)

Ffôn: 0300 061 6094